

Cydraddoldeb –
gofyn y cwestiynau iawn
canllaw ar gyfer newid



Beth ydi pwrpas y canllaw hwn?

Pwrpas y canllaw hwn ydi helpu pobl sy'n gweithio yn y byd chwaraeon yng Nghymru i ofyn y cwestiynau iawn am gydraddoldeb wrth ystyried unrhyw gynllun, prosiect, polisi neu ymyriad; at bwrpas y ddogfen hon, mae'r rhain, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n gynllun.

Bydd y canllaw yn eich helpu gyda'r canlynol:

- Sicrhau eich bod wedi ystyried yn llawn sut bydd gwahanol bobl yn elwa, neu ddim, o'u cynllun
- Gwirio a herio prosesau cynllunio
- Gwirio a herio ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb
- Sicrhau bod cydraddoldeb i'w weld yn amlwg mewn unrhyw gynllun

Mae'n darparu'r canlynol:

- Dealltwriaeth o pam mae cydraddoldeb yn bwysig i Chwaraeon Cymru
- Fframwaith ar gyfer gofyn y cwestiynau iawn am gydraddoldeb
- Rhestr wirio i gyflwyno crynodeb o'r materion

Ar gyfer pwy mae'r canllaw?

Caiff unrhyw un sy'n cefnogi sefydliad, yn paratoi cynllun neu'n cyflwyno gweithgaredd chwaraeon ei ddefnyddio, i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ystyriaeth lawn.

Pwysigrwydd cydraddoldeb

Mae gan Chwaraeon Cymru ddyletswydd, fel sefydliad sector cyhoeddus, i gael gwared ar wahaniaethu ac i hybu cyfleoedd cyfartal, yn ogystal â meithrin cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gymunedau.

Ein nod ni ydi cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan lawn o waith, polisïau a chynlluniau Chwaraeon Cymru a'n partneriaid.

I gefnogi gweledigaeth y sector ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, sef UNO CENEDL SY'N CARU'R CAMPAU, lle mae POB PLENTYN WEDI GWIRIONI AR CHWARAEON AM OES a Chymru yn GENEDL O BENCAMPWYR, ac i gyrraedd ein nod fel y manylir uchod, mae Chwaraeon Cymru wedi datgan y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Merched a genethod
- Pobl anabl
- Cymunedau o leiafrifoedd ethnig
- Pobl ifanc sy'n byw mewn tldi

Hefyd, mae gan Chwaraeon Cymru ddyletswydd i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol.

Model tri cham

Rydym wedi datblygu model tri cham sy'n rhoi fframwaith i chi i benderfynu ar y cwestiynau iawn i'w gofyn am gydraddoldeb. Gellir gofyn y cwestiynau ar unrhyw gam yn ystod cylch y cynllun ac rydym yn argymhell eu gofyn ddwy neu dair gwaith yn ystod y cylch hwn.

Mae'r model tri cham yn dangos yr egwyddorion rydym wedi'u mabwysiadu ar gyfer gofyn cwestiynau cydraddoldeb ac mae'n esbonio canlyniad yr hyn rydym yn ceisio ei ddarganfod ym mhob cam. Mae gan bob cam un cwestiwn agoriadol ac wedyn cyfres o gwestiynau dilynol. Byddwch yn dewis y rhai i'w gofyn gan ddibynnu ar yr atebion/ymatebion rydych wedi'u cael i'r cwestiynau blaenorol.

1

– Mae **Cam 1** yn ymwneud â'r bobl a'u hagwedd at gydraddoldeb; mae'n edrych ar eu hathroniaeth a'u hegwyddorion.

2

– Mae **Cam 2** yn ymwneud â'r cynllun a'r gwahanol grwpiau o bobl a'u hamgylchiadau penodol.

3

– Mae **Cam 3** yn ymwneud â sut rydych chi'n gwella ac yn mesur eich cynnydd yn barhaus.

Model tri cham ar gyfer gofyn cwestiynau cydraddoldeb

Pwysigrwydd cydraddoldeb yn eich sefydliad

1 Edrych ar yr agwedd at gydraddoldeb a newid diwylliannol

- canfod yr agwedd at gydraddoldeb yn y sefydliad a'i bwysigrwydd iddo
- adnabod y rhanddeiliaid allweddol ym maes cydraddoldeb
- datgan y broses i ddatblygu cynllun
- deall sut mae'r sefydliad yn creu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb
- datgan pa mor gynrychioliadol ydi grwpiau gwneud penderfyniadau allweddol yn y sefydliad

Ymgorffori cydraddoldeb yn eich gwaith cynllunio

2 Edrych ar sut mae cydraddoldeb yn/wedi cael ei ystyried

- datgan sut mae dull seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ddefnyddio fel sail i flaenoriaethau
- datgan camau gweithredu a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer grwpiau blaenoriaeth
- edrych ar sut mae'r sefydliad wedi ymgynghori â gwahanol grwpiau
- datgan yr effaith gadarnhaol neu negyddol ar grwpiau blaenoriaeth
- nodi'r partneriaid sydd gennych chi/rydych chi'n gweithio â hwy

Symud ymlaen

3 Datgan newid a mesur cynnydd

- gweithredu ynghylch canlyniadau'r archwiliadau iechyd ar gydraddoldeb
- system i fonitro canlyniadau cydraddoldeb yn ei lle
- adroddir yn ôl ar y canlyniadau ar y lefel uchaf yn y sefydliad
- ceir diwylliant o welliannau parhaus
- partneriaethau a chyfleoedd newydd ac arloesol yn cael eu datgan

Pwysigrwydd cydraddoldeb yn eich sefydliad

- Beth ydi gweledigaeth a nodau strategol y sefydliad? Sut mae cydraddoldeb yn cyd-fynd â'r rhain?
- Beth ydi gwerthoedd y sefydliad?
- Beth ydi ymrwymiad a gweledigaeth y sefydliad ar gyfer cydraddoldeb?
- Pwy sy'n arwain ar gydraddoldeb yn y sefydliad? Pa mor rhagweithiol ydyn nhw?
- Pwy sy'n cael dylanwad allweddol o ran cydraddoldeb yn eich sefydliad?
- Beth ydi camau'r broses gynllunio a phwy sy'n gyfrifol am bob un?
- Pa mor amrywiol ydi eich grwpiau gwneud penderfyniadau (e.e. Bwrdd, byrddau cynllunio, panelau penodi ac ati)?
- Sut mae'r wybodaeth am gydraddoldeb yn cael ei rhannu gan y sefydliad?
- Pa gynllun hyfforddi sydd gennych chi ar gyfer cydraddoldeb? Sut mae eich anghenion hyfforddi'n cael eu hasesu?

Ymgorffori cydraddoldeb yn eich cynllun

- Pwy ydi grwpiau blaenoriaeth y sefydliad a beth ydi'r rhesymeg dros hyn?
- Pa sefydliadau cydraddoldeb ydych chi wedi ymgynghori â nhw am y cynllun a sut gwnaethoch chi hyn?
- Pa gamau cadarnhaol fyddwch chi'n eu rhoi ar waith a pha effaith fydd y rhain yn ei chael?
- Sut bydd eich camau cadarnhaol yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal grwpiau blaenoriaeth rhag cymryd rhan?
- Pa newidiadau fyddwch chi'n eu gwneud i'r cynllun o ganlyniad i unrhyw effaith negyddol ar grwpiau cydraddoldeb eraill?
- Pa sefydliadau cydraddoldeb a phartneriaid allweddol eraill fyddwch chi'n gweithio â nhw er mwyn rhoi'r cynllun hwn ar waith?

Cwestiynau Cam 3

Symud ymlaen

- Beth ydi'r broses ar gyfer cynnal archwiliadau iechyd ar gydraddoldeb? Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei chael yn yr archwiliad hwn?
- Pa system sydd gennych chi yn ei lle ar gyfer monitro canlyniadau cydraddoldeb?
- Pa ganlyniadau cydraddoldeb sydd wedi'u hadrodd yn ôl yn eich sefydliad a ble maent yn cael eu cyhoeddi?
- Beth sydd gennych chi yn ei le sy'n hybu diwylliant o wella parhaus?
- Sut ydych chi'n canfod partneriaethau a chyfleoedd newydd ac arloesol?

Rhagor o wybodaeth

Rydym yn cydnabod bod ymgorffori cydraddoldeb mewn sefydliad yn broses barhaus - mae newid diwylliannol yn cymryd amser ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod y bobl sy'n gweithio yn y byd chwaraeon yng Nghymru'n cael cefnogaeth ar y siwrnai hon. O ganlyniad, rydym wedi llunio casgliad o adnoddau i'ch helpu chi:

- Cydraddoldeb – gofyn y cwestiynau iawn, canllaw ar gyfer newid
- Cydraddoldeb – gofyn y cwestiynau iawn, canllaw arferion da
- Cydraddoldeb – gofyn y cwestiynau iawn, archwiliad iechyd

Hefyd, mae gennym amrywiaeth o ddogfennau cefnogi ac adnoddau eraill sydd ar gael ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag: info@sportwales.org.uk